



Yr Athro Syr Ian Diamond
Ystadegydd Gwladol
trwy e-bost:
national.statistician@statistics.gov.uk
Copi at:
2023consultation@ons.gov.uk

26/10/2023

Annwyl Syr Ian Diamond,

Ymgynghoriad Dyfodol Ystadegau Poblogaeth a Mudo (2023)

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r sylwadau a gyflwynir isod yn ymgais i ateb dau gwestiwn cyntaf eich holiadur drwy esbonio'r defnydd hanfodol a statudol mae Comisiynydd y Gymraeg yn ei wneud o ystadegau'r cyfrifiad ar hyn o bryd, ac amlinellu sut y bydd eich cynnig yn effeithio ar ein hanghenion gwybodaeth. Y prif bwyntiau rydym yn dymuno eu pwysleisio yw:

- Mor ganolog yw data'r cyfrifiad i waith y Comisiynydd nes bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn creu gofyniad statudol i'r Comisiynydd adrodd ar a dehongli sefyllfa'r Gymraeg ar eu sail.
- Data'r cyfrifiad yw prif sylfaen ymdrechion cynllunio ieithyddol yng Nghymru – ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol iawn.
- Mae'r cyfrifiad yn rhoi cyfle unwaith mewn degawd i ni gyfuno data am nodweddion gwahanol â'i gilydd er mwyn deall yn well amgylchiadau bywyd siaradwyr Cymraeg.
- Nid yw'r cyfrifiad ar ei wedd bresennol yn diwallu'r angen creiddiol sydd gennym am ddata am ddefnydd iaith. Nid yw ychwaith yn ateb y galw sydd yng Nghymru am ddata amlach am y Gymraeg.
- Rhaid felly esblygu ac arloesi ond hyd nes y bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn hyderus ei fod yn gallu goresgyn yr heriau a'r risgiau a amlinellir isod, a bod ystadegau am y Gymraeg yn gallu cwrdd â phob un o'r mesurau ansawdd y mae'n ei osod i'w hun, mae'n ymddangos yn gynamserol i benderfynu peidio â chynnal cyfrifiad yn 2031.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Rydym hefyd yn awyddus i bwysleisio unwaith yn rhagor yr angen i gynyddu'r adnoddau ystadegol a gyhoeddir yn ddwyieithog gan y SYG. Mae'r diffyg presennol wedi amharu ar allu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i hyrwyddo a chael y budd mwyaf o adnoddau hyblyg a dyfeisgar Cyfrifiad 2021. Mae'n hanfodol fod y Gymraeg yn cael ei hystyried o'r cychwyn cyntaf wrth ddylunio adnoddau digidol a rhyngwynebau cysylltiedig. Mae rhagor o arweiniad ymarferol am sut mae gwneud hyn wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru [Technoleg Cymraeg | Helo Blod \(llyw.cymru\)](#) a gwn y bydd fy swyddogion i yn fwy na pharod i'ch cefnogi wrth i chi gynllunio sut i brif-ffrydio'r Gymraeg er mwyn gwireddu ymrwymadau eich cynllun iaith.

1. Gofynion penodol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#) yn datgan bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac yn creu nifer o ddarpariaethau pwysig, gan gynnwys creu swydd Comisiynydd y Gymraeg sydd â'r prif nod statudol o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Amhosibl yw gorbwysleisio, felly, pa mor hanfodol yw data cyfoes, dibynadwy a manwl am y Gymraeg a'i siaradwyr i'r Comisiynydd i gyflawni'r nod statudol hwn. Yn wir, rydym eisoes wedi crynhoi yn hwylus ar ein gwefan y ffordd y bydd data Cyfrifiad 2021 yn cefnogi ac yn llywio'n gwaith: [Effaith canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar waith Comisiynydd y Gymraeg](#).

Fel y pwysleisia'r crynodeb ar ein gwefan, mae [Rhan 2, 5](#) y Mesur hefyd yn creu gofyniad penodol i'r Comisiynydd lunio adroddiad pob pum mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg. Mae'r gofyniad hwn yn benodol iawn mewn perthynas â'r cyfrifiad hefyd: rhaid i bob adroddiad sy'n cael ei lunio ar ôl cyfrifiad adrodd ar ganlyniadau'r cyfrifiad mewn perthynas â'r Gymraeg a chynnig asesiad o oblygiadau'r canlyniadau i sefyllfa'r iaith. Byddai unrhyw newid i'r drefn bresennol yn golygu adolygu'r ddeddfwriaeth hon o bosibl. Dyma ddolen at yr adroddiad oedd yn rhoi sylw i ganlyniadau Cyfrifiad 2011 er gwybodaeth: [Adroddiad 5-mlynedd 2012-15](#).

Mae hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ddyletswydd a rennir â nifer o gyrff allweddol yng Nghymru ac mae Mesur y Gymraeg yn creu dyletswyddau ieithyddol penodol i awdurdodau lleol ar ffurf y safonau hybu. Mae'r [safonau hybu](#) yn creu gofyniad i'r sefydliadau hyn lunio strategaeth 5-mlynedd ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ac mae'n rhaid i'r strategaeth gynnwys targed canrannol ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hardaloedd erbyn diwedd y cyfnod. Y cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell ddata sy'n n galluogi sefydliadau i fesur cynnydd ar y lefelau daearyddol angenrheidiol ac sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am bwy sy'n siarad Cymraeg yn yr ardaloedd hynny er mwyn cynllunio ymyraethau strategol.



2. Gofynion mesur cynnydd cenedlaethol

Dylai gwireddu targedau strategaethau 5-mlynedd yr awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol gyfrannu at wireddu strategaeth fawr genedlaethol Gweinidogion Cymru ar gyfer y Gymraeg: [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr \(llyw.cymru\)](#). Mae'r strategaeth hirdymor hon yn cynnwys dau darged pendant a mesuradwy er mwyn trawsnewid sefyllfa'r iaith:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.

Ffigurau'r cyfrifiad sydd wrth galon y targed cyntaf hwn sydd wedi sicrhau cefnogaeth trawsbleidiol. Gwelir yno (t. 22) amcanestyniad o nifer y siaradwyr Cymraeg ar sail canlyniadau Cyfrifiad 2011 a thueddiadau demograffaid. Mae'r amcanestyniad yma yn cael ei gyferbynnu â thrywydd amgen posibl – [y taflwybr i'r miliwn](#) – sy'n seiliedig ar y newidiadau polisi angenrheidiol i wireddu gweledigaeth feintiol y strategaeth. Bydd y taflwybr hwn yn cael ei ddiweddarau nawr yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021 a bydd yn gyfle i Lywodraeth Cymru adlewyrchu ar beth yn rhagor y mae angen ei wneud er mwyn cyrraedd miliwn o siaradwyr: <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-i-ganlyniadau-cyfrifiad-2021-am-y-gymraeg>

Un o gonglfeini strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwr* yw'r sector addysg. Mae'r taflwybr i'r miliwn yn bennaf seiliedig ar gynyddu'r niferoedd fydd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chynyddu'r niferoedd sy'n gadael ysgolion cyfrwng Saesneg yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Rhan bwysig o'r strategaeth ar gyfer cyflawni hyn yw'r gofyniad statudol sydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r cynlluniau hyn yn gofyn i awdurdodau lleol ymrwymo i darged 10 mlynedd ynghylch y niferoedd fydd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn cynnwys cynlluniau'r awdurdodau lleol er mwyn cyflawni'r targedau hyn. Er bod y targedau eu hunain yn seiliedig ar ddata sy'n deillio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), mae'r targedau hefyd wedi'u plethu â cherrig milltir y taflwybr i'r miliwn, sydd yn eu tro yn seiliedig ar ddata'r cyfrifiad. Mae'r targedau 10 mlynedd sydd wedi'u gosod yn Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol felly yn cyfateb i'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg y bydd yn rhaid ei sicrhau er mwyn cyflawni carreg filltir 2031 y taflwybr i'r miliwn. Felly mae cyfundrefn statudol Cynlluniau Strategol



Cymraeg mewn Addysg wedi eu selio ar blethu data gweinyddol ysgolion a data'r cyfrifiad er mwyn gwireddu strategaethau iaith Gymraeg ac addysg Llywodraeth Cymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu saith nod llesiant er mwyn sicrhau bod pawb yn cyrchu at yr un nod. Un o'r nodau llesiant y mae gofyn i gyrrff cyhoeddus weithio tuag at ei gyflawni yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Er mwyn mesur cynnydd at y nod hwn mae disgwyl i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol. Dyma'r dangosyddion cenedlaethol sy'n ymwneud â'r Gymraeg:

36. Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg

37. Nifer y bobl a all siarad Cymraeg.

Data'r Cyfrifiad yw'r sail i fesur y cynnydd hirdymor yn erbyn y dangosyddion hyn ynghyd â data arolygon: [Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol | LLYW.CYMRU](#).

Mae cwestiwn am y Gymraeg wedi ei gynnwys yn y cyfrifiad ers 1891 ac mae natur hirdymor a chyson y cyfrifiad yn allweddol i'w werth ym maes cynllunio ieithyddol. Wrth geisio deall patrymau ieithyddol cymunedau yng Nghymru, mae angen deall natur newid ieithyddol dros gyfnod o amser. Defnyddir data o gyfrifiadau blaenorol er mwyn darparu cyd-destun i'r newid i batrymau ieithyddol, ac i ddangos gostyngiad neu gynnydd dros gyfnod o amser. Mae'r data hydredol hyn yn dystiolaeth hanfodol i lunwyr polisi a chynllunwyr gwasanaethau. Mae hefyd yn caniatáu i ystadegwyr lunio amcanestyniadau o'r hyn allai ddigwydd yn y dyfodol i'r Gymraeg a'r cymunedau lle siaredir hi.

Mae'n ddiddorol sylwi hefyd ar effeithiau seicolegol ac ymarferol cyhoeddi canlyniadau cyfrifiad bob degawd. Arhosir yn ddisgwyllgar amdanynt bob deng mlynedd, ac maent yn aml yn sbardun arwyddocaol i ddiwygio polisiâu iaith yng Nghymru. Dyma'r ffôn fesur ar gyfer pwysu a mesur effeithiolrwydd ymyraethau'r ddegawd a aeth heibio, ac ar gyfer gosod blaenoriaethau a chyfeiriad ymdrechion y dyfodol. Er enghraifft, roedd y tueddiadau a oedd yn peri gofid yng Nghyfrifiad 2011 yn sbardun i drafodaeth genedlaethol am sefyllfa'r Gymraeg fel y cydnabu'r Gweinidogion yn rhagair *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*.

Rhoddodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 gyfle i ni gael trafodaethau agored ac ailasesu pa ddyfodol y dymunwn ei weld i'r iaith. Mae angen i bethau newid. Mae angen i ni ddod o hyd i egni newydd, cynllunio mewn modd systematig a gwella sut rydym yn cydweithredu er mwyn sicrhau etifeddiaeth haeddiannol i'n hiaith.



Roedd canlyniadau 2011 hefyd yn sbardun i sawl awdurdod lleol fynd i'r afael â'r dirywiad yn strategol cyn dyfodiad y safonau hybu. Cyhoeddodd Cyngor Sir Gâr [ymchwil ystadegol](#) gynhwysfawr ar sefyllfa'r Gymraeg yn y sir yn 2014, er enghraifft, a arweiniodd at [gynllunio strategol manwl](#) ar gyfer yr iaith Nid yw hynny fodd bynnag yn tynnu oddi wrth yr angen am ddata mwy rheolaidd na phob deng mlynedd am y Gymraeg i gael darlun byw o sefyllfa'r Gymraeg yn lleol ac yn gymunedol. Gweler ein sylwadau isod yn hyn o beth.

3. Angen mwy na mesur nifer a chanran siaradwyr

Er mai'r niferoedd a'r canrannau sy'n cipio'r penawdau, rhan ganolog o werth y cyfrifiad yw'r data manwl mae'n ei roi i ni am nodweddion y siaradwyr hyn. Mae'r cyfrifiad yn rhoi cyfle unwaith mewn degawd i ni gael darlun cyflawn o bwy yn union sy'n siarad Cymraeg. Mae'n ein galluogi i gyfuno data am nodweddion gwahanol â'i gilydd er mwyn deall yn well amgylchiadau bywyd siaradwyr Cymraeg. Amlygir lefel y manylder posibl gan yr adnodd creu setiau data gwych y mae'r SYG wedi ei ryddhau sy'n caniatáu i ni holi cwestiynau mor benodol â sawl siaradwr Cymraeg 35–49 oed sy'n byw yng Nghaerdydd, sydd mewn gwaith, sy'n teithio i'w gweithle ar feic.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod mai dim ond unwaith bob degawd mae modd cynhyrchu'r data lleol a phenodol hwn ar lefel daearyddiaethau bychan. Rhwng cyfrifiadau mae'r SYG yn casglu data am rai o'r nodweddion hyn a thrwy arolygon sydd yn ddigonol i gynhyrchu amcangyfrifon ar lefel ranbarthol. Ond rydych yn cydnabod bod y 'manylder cyfyngedig' hwn yn effeithio ar eich gallu i ddarparu 'tystiolaeth gref' i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y blynyddoedd rhwng cyfrifiadau (t. 20). Mewn llawer o achosion ar hyn o bryd, nid yw arolygon yn caniatáu'r SYG i fynd yn is na'r lefel ranbarthol. Mae'r ddogfen ymgynghori'n archwilio'r modd y byddai gwneud defnydd o ddata gweinyddol ochr yn ochr ag arolygon â photensial i lenwi peth o'r bwloch yma ar gyfer nifer o nodweddion ar lefel awdurdod lleol, ac o bosibl yn is na hynny. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg sut y byddai modd gwneud hyn ar gyfer y Gymraeg – maes y mae angen data ar lefel yr ardaloedd daearyddol lleiaf.

Y gallu hwn i graffu ar ddata ar lefel ardaloedd bychain yw un o brif rinweddau data'r cyfrifiad. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun penderfyniad Llywodraeth Cymru i sefydlu Comisiwn Cymunedau Cymraeg ym mis Awst 2022. Sefydlwyd y Comisiwn â'r nod o wneud argymhellion er mwyn cryfhau cymunedau Cymraeg, ac atal y dirywiad sydd i'w weld yn sefyllfa'r Gymraeg yn ei chadarnleoedd. Mae data'r cyfrifiad yn rhoi chwyddwydr i ni ar yr ardaloedd hyn. Un o [argymhellion cychwynnol y Comisiwn](#) yw y dylid dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol (dwysedd uwch). Byddai dynodi ardaloedd o'r fath yn caniatáu amrywiaeth polisi a phwyslais polisi o blaid y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae'r



Comisiwn yn pwysleisio pwysigrwydd tystiolaeth ystadegol (a data'r cyfrifiad yn benodol) yn sail i ddiffinio ardaloedd o'r fath, a hefyd fel ffordd o fesur effaith gwahanol ymyraethau a pholisïau yn y dyfodol. Mae'r math o ddata manwl sydd ar gael yn y cyfrifiad yn sail hanfodol i waith y Comisiwn, yn enwedig gan mai ffocws argymhellion polisi'r Comisiwn fydd y berthynas rhwng y Gymraeg a meysydd eraill fel addysg, tai, yr economi, gwaith, a thueddiadau mudo ac allfudo. Dylid hefyd bwysleisio y byddai cael data amlach a manylach am sefyllfa'r Gymraeg, yn fantais enfawr o safbwynt gwaith y Comisiwn. Mae'n debyg y bydd nifer o'r ymyraethau polisi fydd yn deillio o waith y comisiwn yn arbrolfol ei natur, ac felly bydd gallu mesur effaith yn gyflymach ac yn fwy cyson yn fanteisiol.

Mae data'r cyfrifiad hefyd yn ffynhonnell hollbwysig i ni am drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau fel y tystia'r cyhoeddiad hwn: [Cyfansoddiad cartrefi yng Nghymru o ran y Gymraeg \(Cyfrifiad 2021\) | LLYW.CYMRU](#). Cydnabyddir pwysigrwydd trosglwyddo iaith ar yr aelwyd i hyfywedd iaith ac mae gan Lywodraeth Cymru [Bolisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd](#). Bydd gan ddata'r cyfrifiad am drosglwyddo iaith mewn teuluoedd oblygiadau pwysig i'r taflybr at filiwn o siaradwyr.

Yr angen mawr arall sydd gennym ni yng Nghymru yw data am ddefnydd iaith. Yn wahanol i'r cyfrifiad yn Iwerddon, er enghraifft, nid yw data'r cyfrifiad yn diwallu'r angen hwn ar hyn o bryd nac yn darparu dull o fesur ail darged strategaeth y Llywodraeth, sef:

Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.

Yn absenoldeb data cyfrifiad, yr [Arolwg Defnydd Iaith](#) yw man cychwyn Llywodraeth Cymru i fesur cynnydd yn erbyn y targed hwn. Cynhaliwyd yr arolwg llawn diwethaf rhwng 2013–15 ac fe'i cyd-gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Dechreuwyd ar Arolwg Defnydd Iaith dilynol ym mis Gorffennaf 2019 dan nawdd Llywodraeth Cymru ond bu'n rhaid dwyn yr arolwg i ben yn gynnar ym mis Mawrth 2020 yn sgil y pandemig. Golyga hyn fod yna gyfyngiadau amlwg i werth yr arolwg, gan gynnwys y ffaith nad yw'r sampl yn ddigonol i gynnwys amcangyfrifon ar lefel awdurdod lleol. Y mae hyn, ynghyd â'r ffaith nad oes amserlen reolaidd ar gyfer cynnal yr arolwg hollbwysig hwn, yn fater y byddai'n dda i'r SYG gydweithio â Llywodraeth Cymru i'w ddatrys yn rhan o'r trafodaethau presennol.

4. Croesawu data amlach am y Gymraeg

Fodd bynnag, mae yna anfanteision ynghlwm wrth y ffaith mai dim ond unwaith bob degawd y mae'r data manwl hyn am siaradwyr y Gymraeg yn cael eu cyhoeddi. Rydym yn derbyn y byddai cadw'r model presennol ar gyfer cynhyrchu ystadegau o'r boblogaeth ac



ystadegau cymdeithasol yn golygu y byddai'r data cymharus nesaf ar gael yn 2033. Mae'r Comisiynydd yn croesawu amcan sylfaenol y SYG o ddarparu ystadegau ar lefel awdurdod lleol bob blwyddyn. Rydym yn cydnabod yr angen am ddata amlach er mwyn ymateb yn gyflym i newidiadau a thueddiadau, ond ni fyddai'r Comisiynydd yn cefnogi gwneud hynny ar draul cyfoeth y data presennol.

Yn y cyd-destun hwn rydym yn croesawu trafodaeth bellach ynghylch y posibiladau sy'n bodoli o ran datblygu data am y Gymraeg yn y dyfodol. Fel y gwyddoch, mae eisoes ystod o ddata manwl yn bodoli am y Gymraeg yn y byd addysg, yn enwedig yn y cyfnod addysg statudol. Mae'n deg dadlau fod y data hwn yn rhoi darlun mwy manwl, dilys a dibynadwy i ni o sefyllfa'r Gymraeg mewn perthynas â phlant a phobl ifanc nag a geir drwy arolygon. Hynny yw, mae data ynghylch niferoedd sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, neu ddata ynghylch cyfrwng iaith cymwysterau mae disgyblion yn eu hastudio, yn darparu darlun manwl a chyson o sefyllfa'r Gymraeg ar lefel genedlaethol a lleol. Er hyn, mae'r data manwl hwn yn gyfyngedig i'r sector addysg yn benodol, ac felly yn rhoi mewnwelediad i sefyllfa'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc yn unig.

Mae'n ddiddorol nodi bod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi [papur gwyn ar eu cynigion ar Fil Addysg Gymraeg](#). Un o gynigion y papur gwyn yw sefydlu continwwm iaith Gymraeg gydol oes fyddai'n efelychu'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR) o lefelau iaith. Mae'r Llywodraeth yn nodi yno ei bod yn gweld y continwwm 'fel un llinell o sgiliau ieithyddol, a bydd modd mapio pob dysgwyr a siaradwr (beth bynnag eu hoed a'u hyfedredd) ar y llinell honno'. Y bwriad tu ôl i sefydlu'r continwwm yw y byddai hwn nid yn unig yn fframwaith cyffredin ar gyfer diffinio, disgrifio ac asesu sgiliau Cymraeg unigolion, ond y byddai hefyd yn fecanwaith ar gyfer cynllunio ieithyddol. Mae'r papur gwyn yn cynnig gwneud y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged statudol, a'i gysylltu'n uniongyrchol â'r system addysg yng Nghymru. Y cynnig yw y bydd y Bil yn gosod disgwyliad bod y system addysg yn galluogi pob dysgwr i adael yr ysgol yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Er mwyn cyflawni hyn y bwriad yw gosod deiliant ieithyddol (sy'n gyfystyr a lefel B2 ar y CEFR) fel amcan a nod i holl ysgolion Cymru yn y dyfodol.

Mae'n bwysig iawn ystyried arwyddocâd y cynigion hyn yng nghyd-destun dyfodol ystadegau am y Gymraeg. Mae'r Bil yn cynnig datblygu fframwaith statudol fydd yn galluogi disgrifio sgiliau ieithyddol unigolion mewn ffordd llawer mwy manwl a phenodol na sy'n bosib ar hyn o bryd. Mae hefyd fwriad i ddiffinio ystyr siaradwr Cymraeg mewn perthynas â'r continwwm, hynny yw siaradwr sy'n cyrraedd lefel hyfedr gyfystyr â B2 ar y fframwaith. Mae hefyd bwriad mai continwwm gydol oes fyddai hwn, ac mae felly bosibilrwydd y bydd y fframwaith yn cael ei ddefnyddio mewn colegau addysg bellach, prifysgolion, dysgu gydol oes, ac o fewn gweithleoedd. Yn amlwg mae posibiladau cyffrous o fod yn symud i'r cyfeiriad hwn, ond mae rhaid hefyd fod yn ofalus o unrhyw



ganlyniadau anfwriadol. Er enghraifft, nid hyd a lled y weledigaeth sy'n bodoli ar gyfer y Gymraeg yw miliwn o siaradwyr B2, mae'n llawer mwy na hyn. Wrth ystyried dyfodol ystadegau'r Gymraeg rhaid gofyn cwestiynau sylfaenol ynghylch beth yw pwrpas casglu'r data hwn yn y lle cyntaf: beth yn union rydym yn dymuno ei fesur, a sut mae modd gwneud hyn mewn ffordd sy'n hwyluso'r pwrpas sylfaenol?

Mae tudalen 38 y ddogfen ymgynghori yn rhoi peth sylw cyffredinol i ystadegau poblogaeth mewn gwledydd eraill. Tybed i ba raddau rydych chi wedi astudio'r modd y mae gwledydd eraill yn casglu data am ieithoedd a'u siaradwyr? Rydym yn ymwybodol o nifer o fodelau amgen sy'n casglu data amlach am siaradwyr. Er enghraifft, yr [Arolwg Sosioieithyddol](#) a gynhelir yng Ngwlad y Basg bob pum mlynedd ac sy'n mynd i'r afael ag agweddau, gallu, defnydd a throsglwyddo ieithyddol.

5. Mae newid yn gynamserol

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y SYG yn cydnabod yn y ddogfen ymgynghori bwysigrwydd ystadegau am y Gymraeg i ddefnyddwyr ystadegau yng Nghymru a'i ymrwymiad i gydweithio â Llywodraeth Cymru i nodi ffynonellau priodol ar gyfer cynhyrchu'r ystadegau hyn yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae'r SYG yn gosod y Gymraeg yn gadarn yn y categori o bynciau lle mae angen ymchwil bellach yn ei gylch. Mae'r tabl ar dudalen 28 yn gosod y Gymraeg yn y categori o bynciau lle mae yna ymchwil 'archwiliadol' wedi digwydd hyd yma a chanfyddiad bod tystiolaeth 'rannol' o ffynonellau data gweinyddol ar gael. Nid yw'n manylu ar natur y dystiolaeth honno ond dylid pwysleisio nad yw'r Comisiynydd o'r farn fod y data a geir o gyfrifiadau ysgolion yn ddigonol gan ei fod yn canolbwyntio ar un grŵp oedran yn unig. Hyd nes bod yr ymchwil hwn wedi'i gyflawni a datrysiadau boddhaol wedi eu canfod y mae'n gynamserol i ni gynnig ymateb neu ddod i gasgliadau terfynol.

Dylid pwysleisio hefyd nad ydym yn ystyried data am y Gymraeg mewn gwagle. Fel y pwysleisir ym mhwynt 3 uchod mae gallu deall y data hyn yng nghyd-destun nodweddion eraill yn hollbwysig. Mae'n destun pryder gwirioneddol i ni, felly, fod cymaint o nodweddion eraill sy'n ein cynorthwyo i ddeall pwy sy'n siarad Cymraeg yn cael eu gosod yn y categori 'cyfyngedig' yn y tabl ar dudalen 28, gan gynnwys meysydd allweddol fel hunaniaeth genedlaethol, galwedigaeth a chrefydd.

Mae hyn yn peri pryder pellach i ni gan fod gallu adnabod siaradwyr Cymraeg sydd hefyd â nodweddion gwarchodedig yn flaenoriaeth polisi yng Nghymru. O'r herwydd mae'r drafodaeth am ystadegau ethnigrwydd yn y ddogfen ymgynghori yn peri pryder penodol. Mae'n nodi bod yna wahaniaethau yn yr ystadegau ethnigrwydd sy'n seiliedig ar ddata



gweinyddol, gan gynnwys canrannau uwch o'r rhai yn y grŵp ethnig gwyn, a chanrannau is o'r rhai yn y grwpiau ethnig Asiaidd, du ac arall. Mae hyn yn bryder gwirioneddol i ni gan fod gennym ni ddi-ddordeb mewn cael gwybodaeth am grwpiau cymharol fychan o siaradwyr Cymraeg o fewn y grwpiau ethnig hyn er mwyn gwireddu polisïau canolog, megis [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hilio!](#) Cymru.

Rydym yn ymwybodol ers tro o'r gwahaniaeth sylweddol a sylfaenol sydd rhwng canlyniadau arolygon am nifer siaradwyr Cymraeg a chanlyniadau'r cyfrifiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn gyson ac yn bendant na all data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gael eu defnyddio i asesu'r cynnydd tuag at gyflawni'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg, er enghraifft: [Diweddariad gan y Prif Ystadegydd: trafodaeth am ddata ar y Gymraeg sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth | Blog Digidol a Data \(llyw.cymru\)](#). Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 wedi rhoi'r gwahaniaethau rhwng data'r arolwg hwn a chanlyniadau'r cyfrifiad dan y chwyddwydr unwaith yn rhagor ac rydym yn croesawu'r [cynllun gwaith](#) rydych wedi ei gyhoeddi ar y cyd â'r Llywodraeth i wella eich dealltwriaeth o'r prif ffynonellau data gweinyddol ac arolygon a ddefnyddir i lunio ystadegau ar y Gymraeg. Mae'r cynllun gwaith hwn yn un ar gyfer 2023–24 'a thu hwnt' a bydd yn disgwyl i'r SYG ac eraill roi sylw dyledus i'w ganfyddiadau a'i gasgliadau cyn pennu dyfodol casglu ystadegau ym maes y Gymraeg. Mae'r amserlen bresennol ar gyfer argymhellid yr Ystadegydd Gwladol am ddyfodol y Cyfrifiad yn gwneud hyn yn amhosibl.

Mae lle i holi hefyd a ddylid symud o'r model presennol nawr gan fod y cyfrifiad diwethaf wedi ei gynnal yn ystod cyfnod digynsail pandemig COVID-19. Rhybuddiwyd defnyddwyr o gyd-destun anghyffredin y cyfrifiad droeon. Er enghraifft, wrth gyflwyno'r data am y [Gymraeg yng Nghymru](#) mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio:

Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19) ar 21 Mawrth 2021. Roedd hyn yn dilyn cyfnodau o gyfyngiadau symud, dysgu o bell ar gyfer llawer o blant ac roedd llawer o bobl yn gweithio gartref. Nid ydym yn gwybod sut effeithiodd y pandemig ar y ffordd roedd pobl yn adrodd am eu sgiliau Cymraeg (neu ar ganfyddiadau o sgiliau Cymraeg pobl eraill).

I ba raddau y mae modd defnyddio Cyfrifiad 2021 fel ffon fesur wedyn? Byddai'n rhoi rhagor o sicrwydd i ddefnyddwyr pe bai newid sylfaenol a sylweddol i'r drefn o gasglu data yn dod yn dilyn cyfrifiad a gynhaliwyd mewn cyd-destun cyffredin.

6. Cefnogaeth wrth gynllunio at y dyfodol

I grynhoi felly, rydym yn naturiol yn croesawu nod y SYG i gynhyrchu 'ystadegau gwell', gan eu rhyddhau yn gyflymach nag y mae ar hyn o bryd. Mae'r ddogfen ymgynghori yn



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

amlinellu'r camau breision rydych wedi eu cymryd i ddarparu gwell amcangyfrifon poblogaeth gan eu darparu yn gyflymach ac yn amlach. Fodd bynnag, nid yw'n glir eto fod y newidiadau arfaethedig yn mynd i warantu 'ystadegau gwell' yn gyffredinol, ac yn benodol ym maes y Gymraeg. I'r gwrthwyneb, mae perygl mawr y byddai peidio cynnal cyfrifiad yn arwain at lai o ddata cynhwysfawr a dibynadwy am siaradwyr Cymraeg. Yn wir, mae risg y byddai'r newid hwn yn golygu na fyddai data am y Gymraeg yn cyrraedd mesurau ansawdd y SYG ei hun, yn benodol mewn perthynas â chywirdeb, daearyddiaeth a manylder. Mae angen sicrwydd bod modd diwallu'r gofynion hyn yn llawn, yn ogystal â'r galw cyffredinol am ddata gwell am y Gymraeg a'i siaradwyr cyn symud o'r model presennol.

Rydym yn cydnabod, wrth reswm, na ddylid bodloni ar aros yn yr unfan a bod angen archwilio'n barhaus ddulliau a thrywyddau amgen ac arloesol i ddata o'r un safon – os nad yn well – na'r hyn rydym yn ei dderbyn drwy gynnal cyfrifiad bob degawd. Rydym yn gweld potensial cyffrous mewn gallu cyrchu data ar amrywiaeth o bynciau nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan holiadur y cyfrifiad ar hyn o bryd, er enghraifft incwm. Ond mae rhagair yr Ystadegydd Gwladol ei hun yn cydnabod nad yw'r maes hwn wedi aeddfedu'n llawn eto a'n bod yn aros i weld data gweinyddol yn 'cyrraedd eu potensial llawn dros y degawd nesaf'. Mae hyn ynddo'i hun yn awgrymu'n gryf y byddai'n ddoethach aros tan ar ôl Cyfrifiad 2031 i wneud penderfyniadau pellgyrhaeddol ynghylch newid.

Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn cydnabod y modd y mae'r cyfrifiad wedi *esblygu* dros amser. Ein barn ni, yn wyneb y pwyntiau a nodir uchod, yw y dylai'r cyfrifiad barhau i esblygu am y tro gan fanteisio ar y 'datblygiadau sylweddol yng ngwyddoniaeth data a galluogrwydd cyfrifiadura' (t. 1) y mae'r ddogfen ymgynghori yn adrodd arnynt i gefnogi'r esblygiad hwn ymhellach. Rydym yn falch o'r cyfleoedd cyson i gydweithio ac ymgysylltu â chi wrth i chi gynllunio pob cyfrifiad – o fod yn aelodau o grŵp tasg a gorffen oedd yn darparu cyngor arbenigol ar eiriad yr holiaduron Cymraeg i fod yn aelodau gweithgar o Grŵp Cynghori'r Cyfrifiad yng Nghymru. Hyderwn y bydd modd i'r cydweithio agos hwn barhau wrth i chi gynllunio'r camau nesaf i ddiwallu anghenion ystadegol Cymru.

Yn gywir

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg